Awst 2018

Gweinidogion Cymru

# Cyfarwyddyd i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n ailstrwythuro, gan gynnwys newid strwythur y grŵp, neu ddiwygio'r dogfennau llywodraethu

ISBN Digidol 978-1-78937-942-6
Hawlfraint y Goron 2018

| **Cynnwys** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| Adran 1 | **Trosolwg** | 3 |
| Adran 2 | **Y Cyfarwyddyd** | 4 |
| | | |
| Adran 3 | **Gofynion Hysbysiad Statudol** | 4 |
| Adran 4 | **Tablau Cyfeirio** | 9 |
| | **Y Gofynion ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gwmnïau** | |
| | Tabl A: Cwmni: trefniadau ac atgyfansoddi | 9 |
| | Tabl B: Cwmni: Trosi cwmni yn gymdeithas gofrestredig | 10 |
| | Tabl C: Cwmni: Newid erthyglau | 11 |
| | Tabl D: Cwmni: Newid enw neu swyddfa gofrestredig | 12 |
| | **Y Gofynion ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gymdeithasau cofrestredig** | |
| | Tabl E: Ailstrwythuro cymdeithas gofrestredig | 13 |
| | Tabl F: Cymdeithas gofrestredig: diddymu | 14 |
| | Tabl G: Cymdeithasau cofrestredig: newid rheolau | 15 |
| | **Y Gofynion ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n elusennau cofrestredig** | |
| | Tabl H: Elusen gofrestredig: newid erthyglau | 16 |
| Atodiad 1 | **Gwybodaeth Gyffredinol** | 17 |
| Atodiad 2 | **Rhestr Termau** | 19 |
| Atodiad 3 | **Ffurflenni** | 20 |

## 1. Trosolwg

1.1 O dan Ran 1 o Ddeddf 1996, mae Gweinidogion Cymru yn rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru, a chyfeirir atynt yn y Cyfarwyddyd hwn fel “y Rheoleiddiwr” at ddibenion swyddogaethau Rheoleiddio.

1.2 Mae paragraffau 9, 11, 12 a 13 o Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996 (“Deddf 1996”), fel y'u diwygiwyd gan adrannau 3[1] a 4[2] o Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol (Cymru) 2018 (“Deddf 2018”) yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hysbysu'r rheoleiddiwr am newidiadau penodol o ran ailstrwythuro, trefniadau cwmni ac atgyfansoddi, diddymu cymdeithas gofrestredig, a newidiadau cyfansoddiadol.

1.3 Mae paragraff 13A o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 (a fewnosodwyd gan adran 5 o Ddeddf 2018) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ynghylch cyflwyno hysbysiadau o'r fath, ar ba ffurf y mae'n rhaid eu cyflwyno, eu cynnwys, a'r terfynau amser ar gyfer eu cyflwyno. Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn hepgor gofyniad i gyflwyno hysbysiad.

1.4 Yn y Cyfarwyddyd hwn, mae'r Rheoleiddiwr yn nodi'r newidiadau y mae'n rhaid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hysbysu'r Rheoleiddiwr amdanynt, ac yn nodi o dan ba amgylchiadau yr hepgorir unrhyw ofyniad i hysbysu sy'n golygu nad oes rhaid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hysbysu'r rheoleiddiwr.

1.5 Caiff Gweinidogion newid y Cyfarwyddyd hwn neu ei dynnu yn ôl, yn gyffredinol neu mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig penodol, o ran mathau penodol o ofynion hysbysu neu mewn unrhyw ffordd arall. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd roi Cyfarwyddydau pellach o dan amodau gwahanol i'r Cyfarwyddydau hyn i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig unigol.

1.6 Bydd y Rheoleiddiwr yn gwneud trefniadau i ddwyn y Cyfarwyddyd hwn, ac unrhyw newidiadau dilynol a wneir iddo, at sylw landlordiaid cymdeithasol cofrestredig drwy ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

1.7 Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar **15 Awst 2018.**

[1] Mae adran 3 o Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018 yn diwygio paragraffau 9 ac 11 o Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996.
[2] Mae adran 4 o Ddeddf 2018 yn diwygio paragraffau 12 a 13 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996.

## 2. Y Cyfarwyddyd

Mae'r Rheoleiddiwr, drwy arfer y pŵer a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraff 13A o Atodlen 1 i Ddeddf 1996, yn gwneud y Cyfarwyddyd hwn mewn perthynas â hysbysiadau gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn unol â gofynion Deddf 2018 mewn perthynas â'r canlynol:

- Cwmni: trefniadau ac atgyfansoddi; trosi yn gymdeithas gofrestredig; newid erthyglau; a newid enw neu swyddfa gofrestredig
- Cymdeithas gofrestredig: ailstrwythuro; diddymu; a newid rheolau
- Elusen gofrestredig: newid erthyglau.

## 3. Y gofynion o ran hysbysiadau statudol

3.1 Mae Tablau A i H isod yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu mewn unrhyw hysbysiad statudol, a pha bryd y mae'n rhaid cyflwyno hysbysiad o'r fath.

3.2 Mae'r ffurflenni ar gyfer '*Hysbysu am ailstrwythuro a newid cyfansoddiadol*'' ar gael yn **Atodiad 3** ac maent hefyd ar gael i'w lawrlwytho o wefan Llywodraeth Cymru (https://gov.wales/docs/desh/publications/180815-form-for-notification-of-restructures-changes-to-rules-or-articles-cy.pdf). Rhaid eu defnyddio i gyflwyno hysbysiadau pan fo hynny wedi ei nodi isod. Os caiff ei llenwi'n gywir, bydd yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar y ffurflen yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn y Cyfarwyddyd.

### Yr wybodaeth sy'n ofynnol mewn pob hysbysiad

3.3 Rhaid i bob hysbysiad gynnwys manylion i nodi pwy yw'r cyrff dan sylw, a manylion cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau. Rhaid i'r wybodaeth hon gynnwys:

a) Enw'r landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad
b) y rhif cofrestru
c) y rhif cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau (pan fo'n gymwys)
d) y rhif cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (pan fo'n gymwys)
e) y rhif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau (pan fo'n gymwys)

3.4 Dylid cyfrifo'r terfynau amser ar gyfer pob un o'r hysbysiadau statudol gan ddefnyddio'r diwrnod gwaith nesaf fel Diwrnod 1.

### Y drefn ar ôl i hysbysiad ddod i law

3.5 Nod y Rheoleiddiwr yw adolygu'r hysbysiad, a chodi unrhyw ymholiadau gyda'r landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n ei gyflwyno, pan fo hynny'n angenrheidiol, o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y daw'r hysbysiad i law.

**Canllaw manwl ar fathau penodol o hysbysiad**

**A. Newid erthyglau neu i reolau; ailstrwythuro cymdeithas gofrestredig; trosi cwmni yn gymdeithas gofrestredig**

3.6 Dyma wybodaeth ychwanegol (yn ychwanegol i'r wybodaeth ym mharagraff 3.4 uchod) ynghylch pa wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu mewn hysbysiadau am newid erthyglau neu reolau, ailstrwythuro cymdeithas gofrestredig, ac achosion o drosi cwmni yn gymdeithas gofrestredig. Mae hyn yn ymwneud â'r hysbysiadau a nodir yn y tablau a ganlyn yn y Cyfarwyddyd:

**Tabl B**: Cwmni: Trosi cwmni yn gymdeithas gofrestredig
**Tabl C**: Cwmni: Newid erthyglau
**Tabl E**: Ailstrwythuro cymdeithas gofrestredig
**Tabl G**: Cymdeithasau cofrestredig: newid rheolau.

**Y ffurflen hysbysu a chynnwys yr hysbysiadau**

3.7 Rhaid cyflwyno'r wybodaeth hysbysu sy'n ofynnol yn Nhablau B, C, E ac G o'r Cyfarwyddyd ar y ffurflen a ddyroddir gan y Rheoleiddiwr at y diben hwnnw.

3.8 Pan fo diwygiadau i reolau neu erthyglau wedi peri i'r landlord cymdeithasol cofrestredig ddod yn is-gorff i gorff arall, neu wedi ei alluogi i wneud hynny, rhaid i'r hysbysiad gynnwys manylion y rhiant-gorff newydd.

3.9 Pan fo mwy nag un landlord cymdeithasol cofrestredig yn ymwneud â thrafodiad (er enghraifft, uno o leiaf dau landlord cymdeithasol cofrestredig) caiff landlord cymdeithasol cofrestredig arweiniol gyflwyno un ffurflen sy'n cynnwys yr holl wybodaeth a'r holl ddogfennau perthnasol ar ran yr holl landlordiaid cymdeithasol cofrestredig dan sylw. Rhaid i'r landlord cymdeithasol cofrestredig arweiniol fod wedi ei awdurdodi (gan bob landlord cymdeithasol cofrestredig arall) i wneud hynny.

3.10 Pan fo cyrff yng Nghymru nad ydynt yn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ymwneud â phroses ailstrwythuro megis uno neu drosglwyddo ymrwymiadau, rhaid i'r landlord neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddarparu gwybodaeth am y cyrff hynny nad ydynt yn rhai cofrestredig yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir ganddynt amdanynt hwy eu hunain.

3.11 Mewn perthynas â hysbysu am achosion o:

- trosi cwmni yn gymdeithas gofrestredig (Tabl B),
- trosi cymdeithas gofrestredig yn gwmni (Tabl E),
- trosglwyddo ymrwymiadau (Tabl E), neu
- uno (Tabl E)

3.12 Rhaid i'r hysbysiad gynnwys copi o'r penderfyniad neu benderfyniadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 fel y'i cymeradwywyd, neu fel y'u cymeradwywyd, gan unrhyw landlord cymdeithasol cofrestredig y mae'n ofynnol iddo gyflwyno'r hysbysiad. Rhaid i'r hysbysiad hwn hefyd gynnwys yr amserlen ar gyfer cwblhau'r broses ailstrwythuro (h.y. y dyddiad y bwriedir i'r prosesau statudol ddod i rym).

3.13 Pan fo'n ofynnol, rhaid hefyd darparu datganiad am yr ymgynghoriad â'i thenantiaid a gynhaliwyd gan y gymdeithas[3] cyn iddi gymeradwyo'r penderfyniad y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef. Fel arfer disgwylir i'r datganiad gynnwys y canlynol:

- Y math o ymgynghoriad
- Copi o'r dogfennau ymgynghori a ddarparwyd i denantiaid
- Manylion nifer yr ymatebion a gafwyd (o gymharu â nifer y tenantiaid)
- Manylion y pryderon a godwyd, a sut y mae'r landlord cymdeithasol cofrestredig wedi ymateb i'r pryderon hynny

**Terfynau amser: pryd i gyflwyno hysbysiad**

3.14 ar gyfer hysbysiadau a gyflwynir o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 3.11, rhaid hysbysu'r Rheoleiddiwr CYN i'r cofrestrydd perthnasol (e.e. Tŷ'r Cwmnïau neu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol) gofrestru'r penderfyniad. Rhaid gwneud hyn o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r landlord cymdeithasol cofrestredig gymeradwyo'r penderfyniad i drosi neu ailstrwythuro.

3.15 Ni chaiff y cofrestrydd perthnasol gofrestru'r penderfyniadau hyn ond pa fo'r landlord cymdeithasol cofrestredig wedi cadarnhau yr hysbyswyd y Rheoleiddiwr amdanynt.

3.16 Pan fo unrhyw broses ailstrwythuro yn ei gwneud yn ofynnol i gymeradwyo a/neu gadarnhau penderfyniadau mewn dau gyfarfod (e.e. fel y nodir yn adrannau 109, 110, 112 neu 120 o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014), dylid cyfrifo'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r hysbysiad i'r Rheoleiddiwr, fel y'i disgrifir ym mharagraff 3.14 uchod, o ddyddiad yr ail gyfarfod.

3.17 Ar gyfer achosion o newid rheolau neu erthyglau, gan gynnwys:

- newid statws elusennol (h.y. dod yn gorff elusennol) (Tablau C(i) a G(i)
- newid sy'n peri i'r landlord cymdeithasol cofrestredig ddod yn is-gorff i gorff arall, neu'n ei alluogi i wneud hynny, neu'n peri iddo beidio â bod yn is-gorff o'r fath, neu'n ei alluogi i beidio â bod yn is-gorff o'r fath (Tablau C a G (iii) a (iv))
- newid enw neu gyfeiriad (y landlord cymdeithasol cofrestredig) (Tabl G (v a vi))

[3] Pan ddaw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym, daw'r tenant yn "ddeiliad-contract".

Rhaid hysbysu'r Rheoleiddiwr o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cofrestru'r penderfyniad perthnasol gyda'r cofrestrydd perthnasol.

3.18 Bydd rhaid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gyflwyno tystiolaeth i'r Rheoleiddiwr bod y newidiadau hyn wedi eu cofnodi gan Dŷ'r Cwmnïau, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu'r Comisiwn Elusennau (fel y bo'n briodol), neu wedi eu cofrestru ganddynt. Gallai hyn gynnwys copïau o dystysgrifau cofrestru neu gadarnhad a anfonir drwy e-bost.

**Sut i gyflwyno hysbysiad:**

3.19 Rhaid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddefnyddio'r ffurflen '*Hysbysu am ailstrwythuro a newid cyfansoddiadol*'' wrth gyflwyno'r hysbysiadau a nodir uchod. Rhaid llenwi'r holl rannau ac adrannau perthnasol o'r ffurflen.

3.20 O ran prosesau ailstrwythuro a allai ddigwydd dros fwy nag un cam, penderfynir pa un a oes angen hysbysu'r Rheoleiddiwr am bob cam ar wahân neu gyda'i gilydd ar un ffurflen ar sail amseriad pob un o'r camau hynny. Er enghraifft, os yw landlord cymdeithasol cofrestredig yn trosi o fod yn gwmni i fod yn gymdeithas gofrestredig ac yna'n newid ei riant-gorff, dylai lenwi un ffurflen gan gyfeirio at yr holl drafodion, os ydynt yn cael eu gwneud ar yr un pryd neu tua'r un pryd. Fodd bynnag, os nad yw'r trafodion yn cael eu gwneud tua'r un pryd, rhaid i'r landlord cymdeithasol cofrestredig hysbysu'r Rheoleiddiwr am bob cam ar wahân er mwyn bodloni'r terfynau amser gofynnol.

3.21 Dylid anfon y ffurflenni wedi'u cwblhau, ynghyd â'r dogfennau cysylltiedig, ar ffurf electronig i housingregulation@gov.wales
Os nad yw hynny'n bosibl, cysylltwch â'ch rheolwr rheoleiddio i drafod y mater.

**B. Newid enw neu gyfeiriad cwmni**

3.22 Gellir gwneud y newidiadau hyn heb newid erthyglau'r cwmni. Dyna pam fod gofyniad hysbysu ar wahân (Cyfarwyddyd Tabl D).

**Ffurf a chynnwys hysbysiadau**

3.22 Dylai hysbysiad ynghylch newid enw cwmni neu newid cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig gynnwys yr enw newydd a gofrestrwyd a/neu'r cyfeiriad newydd a gofrestrwyd (fel y bo'n berthnasol) a chadarnhad bod y newidiadau hyn wedi eu cofnodi gan Dŷ'r Cwmnïau.

**Terfynau amser: pryd i gyflwyno hysbysiad**

3.24 Rhaid hysbysu'r Rheoleiddiwr am newid enw neu gyfeiriad cwmni o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl:

a) Dyddiad y dystysgrif gorffori o ran newid enw (a ddyroddir yn unol ag adran 81, Deddf Cwmnïau 2006); a/neu

b) cofrestru gan y Cofrestrydd yr hysbysiad ynghylch newid cyfeiriad sy'n ofynnol o dan adran 87 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

**Sut i gyflwyno hysbysiad:**

3.25 Gall y landlord cymdeithasol cofrestredig hysbysu'r Rheoleiddiwr drwy anfon yr wybodaeth drwy e-bost i housingregulation@gov.wales
Os nad yw hynny'n bosibl, cysylltwch â'ch rheolwr rheoleiddio i drafod y mater.

**C. Trefniadau cwmni, atgyfansoddi, a diddymu landlord cymdeithasol cofrestredig**

**Ffurf a chynnwys hysbysiadau:**

3.26 Mewn perthynas â threfniadau cwmni ac achosion o atgyfansoddi, rhaid i'r hysbysiad gynnwys copi o'r canlynol:

- Y trefniant gwirfoddol o dan Ran 1 o Ddeddf Ansolfedd 1986, y cynnig o ran trefniant gwirfoddol ar ran cwmni y cytunwyd iddo gan y credydwyr, a'r datganiad o faterion; neu
- y gorchymyn llys o dan adran 899 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (sancsiwn llys i ddod i gyfaddawd neu i wneud trefniant); neu
- Y gorchymyn llys o dan adran 900 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (pŵer llys i hwyluso atgyfansoddi neu uno).

3.27 Mewn perthynas ag achosion o ddiddymu landlord cymdeithasol cofrestredig, rhaid i'r hysbysiad gynnwys copi o'r offeryn diddymu a gymeradwywyd gan y landlord cymdeithasol cofrestredig yn unol ag adran 119(3) o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

**Terfynau amser: pryd i gyflwyno hysbysiad**

3.28 Mae'n hanfodol hysbysu'r Rheoleiddiwr am unrhyw un neu ragor o'r newidiadau hyn cyn gynted â phosibl, ac nid hwyrach na'r diwrnod gwaith nesaf ar ôl dyddiad:

- y gorchymyn llys; neu
- cytundeb terfynol y trefniant gwirfoddol; neu
- cymeradwyo'r offeryn diddymu yn unol ag adran 119(3) o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

3.29 Pan fo'r gymeradwyaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gymeradwyo a/neu gadarnhau penderfyniadau mewn dau gyfarfod (e.e. fel y nodir yn adran 120 o

Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014), dylid cyfrifo'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r hysbysiad i'r Rheoleiddiwr, fel y disgrifir ym mharagraff 3.28 uchod, o ddyddiad yr ail gyfarfod.

**Sut i gyflwyno hysbysiad:**

3.30 Mewn perthynas â'r hysbysiadau hyn, gellir anfon yr wybodaeth at y Rheoleiddiwr ar unrhyw fformat, ar yr amod ei bod yn cynnwys y dogfennau a'r wybodaeth a bennir uchod. Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wneud y canlynol:

a) anfon yr wybodaeth ynghylch yr hysbysiad, ynghyd â'r dogfennau cysylltiedig, drwy e-bost at rheolwr rheoleiddio'r landlord cymdeithasol cofrestredig ac i housingregulation@gov.wales

b) ffonio rheolwr rheoleiddio'r landlord cymdeithasol cofrestredig i gadarnhau ei fod wedi cael yr hysbysiadau hyn.

**4. Y TABLAU**

**Tabl A: CYFARWYDDYD GWEINIDOGION CYMRU MEWN PERTHYNAS Â CHWMNI: TREFNIADAU AC ATGYFANSODDI (paragraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd))**

<table>
<tr><th colspan="2">Cynnwys</th><th>Terfynau amser</th></tr>
<tr><td>Mewn perthynas â threfniant gwirfoddol o dan Ran 1 o Ddeddf Ansolfedd 1986 (paragraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 4 o Ddeddf 2018).</td><td>1. Manylion adnabod y landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad.<br>a. ei enw;<br>b. ei rif cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol;<br>c. ei rif cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau;<br>d. ei rif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau pan fo'n gymwys;<br>2. Copi o'r trefniant gwirfoddol o dan Ran 1 o Ddeddf Ansolfedd 1986, ynghyd â chopi o'r cynnig o ran trefniant gwirfoddol ar ran cwmni y cytunwyd iddo gan y credydwyr, a chopi o'r datganiad o faterion.</td><td rowspan="3">Rhaid cyflwyno'r hysbysiad erbyn y diwrnod gwaith nesaf ar ôl dyddiad y gorchymyn neu ddyddiad cytundeb terfynol y trefniant gwirfoddol (fel y bo'n gymwys)</td></tr>
<tr><td>Mewn perthynas â gorchymyn ynghylch sancsiwn llys i ddod i gyfaddawd neu i wneud trefniant o dan adran 899 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (paragraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 4 o Ddeddf 2018)</td><td>1. Manylion adnabod y landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad.<br>a. ei enw;<br>b. ei rif cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol;<br>c. ei rif cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau;<br>d. ei rif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau lle y bo'n gymwys;<br>2. Copi o'r gorchymyn llys o dan adran 899 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (sancsiwn llys i ddod i gyfaddawd neu i wneud trefniant).</td></tr>
<tr><td>Mewn perthynas â gorchymyn ynghylch pŵer llys i hwyluso atgyfansoddi neu uno o dan adran 900 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (paragraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 4 o Ddeddf 2018)</td><td>1. Manylion adnabod y landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad.<br>a. ei enw;<br>b. ei rif cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol;<br>c. ei rif cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau;<br>d. ei rif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau lle y bo'n gymwys;<br>2. Copi o'r gorchymyn llys o dan adran 900 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (pŵer llys i hwyluso atgyfansoddi neu uno).</td></tr>
</table>

**Tabl B: CYFARWYDDYD GWEINIDOGION CYMRU MEWN PERTHYNAS Â THROSI CWMNI YN GYMDEITHAS GOFRESTREDIG (paragraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 4 o Ddeddf 2018)**

| Cynnwys | Terfynau amser |
|---|---|
| **1. Manylion adnabod y landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad.**<br>a. ei enw;<br>b. ei rif cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol;<br>c. ei rif cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau;<br>d. ei rif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau lle y bo'n gymwys.<br>**2. Enw arfaethedig y corff newydd;**<br>**3. Copi o'r penderfyniad neu benderfyniadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 fel y'u cymeradwywyd gan y landlord cymdeithasol cofrestredig;**<br>**4. Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r broses drosi (h.y. y dyddiad y bwriedir i'r prosesau statudol ddod i rym).** | Rhaid cyflwyno hysbysiad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r landlord cymdeithasol cofrestredig gymeradwyo penderfyniad i drosi |

**Tabl C: CYFARWYDDYD GWEINIDOGION CYMRU MEWN PERTHYNAS Â CHWMNÏAU: NEWID ERTHYGLAU (Paragraff 11(2) o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 3(3) o Ddeddf 2018)**

<table>
<tr><td colspan="2">Mae'n ofynnol cyflwyno hysbysiadau ynghylch y canlynol:<br>i. newidiadau i'r erthyglau sy'n effeithio ar statws elusennol y cwmni;<br>ii. newidiadau i'r erthyglau a allai effeithio ar ddynodiad y cwmni yn gwmni nid-er-elw (yn unol ag adran 2(2) o Ddeddf 1996. - noder y gallai hyn effeithio ar gymhwysedd i gofrestru)<br>iii. newidiadau i'r erthyglau sy'n peri i'r cwmni ddod yn is-gorff i gorff arall, neu'n peri iddo beidio â bod yn is-gwmni i gwmni arall;<br>iv. newidiadau i'r erthyglau sy'n galluogi'r cwmni i ddod yn is-gorff i gorff arall, neu'n peri iddo beidio â bod yn is-gorff i gorff arall.</td></tr>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Terfynau amser</th></tr>
<tr><td>1. Manylion adnabod y landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad.<br>a. ei enw;<br>b. ei rif cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol;<br>c. ei rif cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau;<br>d. ei rif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, pan fo'n gymwys.<br>2. Nodi pa un neu ragor o'r mathau o newidiadau i erthyglau y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef (h.y. o blith y mathau o newidiadau a nodir yn i - iv uchod);<br>3. Nodi canlyniad y newid neu newidiadau<br>4. Pan fo'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn dod yn is-gorff i gorff arall o ganlyniad i'r newid, rhaid nodi'r wybodaeth a ganlyn am riant-gorff newydd y landlord cymdeithasol cofrestredig:<br>a. ei enw;<br>b. ei rif cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol, pan fo'n gymwys;<br>c. ei rif cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau, pan fo'n gymwys;<br>d. ei rif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, pan fo'n gymwys;<br>e. ei rif cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, pan fo'n gymwys;<br>5. Tystiolaeth bod y newidiadau wedi eu cofnodi gan Dŷ'r Cwmnïau;<br>6. Tystiolaeth bod y newidiadau wedi eu cofnodi gan y Comisiwn Elusennau, pan fo'n gymwys.</td><td>Rhaid cyflwyno'r hysbysiad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r penderfyniad ddod i rym</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gollyngiad: Nid yw'n ofynnol cyflwyno hysbysiad ynghylch newid erthyglau ac eithrio'r rheini a nodir yng nghymalau i - iv uchod.</td></tr>
</table>

**Tabl D: CYFARWYDDYD GWEINIDOGION CYMRU MEWN PERTHYNAS Â CHWMNÏAU: NEWID ENW NEU NEWID CYFEIRIAD SWYDDFA GOFRESTREDIG**
**(Paragraff 11(2) o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 3(3) o Ddeddf 2018)**

<table>
<tr><th colspan="2">Cynnwys</th><th>Terfynau amser</th></tr>
<tr><td>Mewn perthynas ag unrhyw achos o newid enw:</td><td>1. Manylion adnabod cyfredol y landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad.<br>a. ei enw cyfredol ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol;<br>b. ei rif cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol;<br>c. ei rif cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau;<br>d. ei rif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau lle y bo'n gymwys;<br>2. Enw newydd y landlord cymdeithasol cofrestredig;<br>3. Tystiolaeth bod y newid wedi ei gofrestru gan Dŷ'r Cwmnïau.</td><td rowspan="2">Rhaid cyflwyno'r hysbysiad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r newid ddod i rym</td></tr>
<tr><td>Mewn perthynas ag unrhyw achos o newid cyfeiriad:</td><td>1. Manylion adnabod y landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad.<br>a. ei enw;<br>b. ei rif cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol;<br>c. ei rif cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau;<br>d. ei rif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau lle y bo'n gymwys;<br>2. Cyfeiriad newydd y landlord cymdeithasol cofrestredig;<br>3. Tystiolaeth bod y newid wedi ei gofrestru gan Dŷ'r Cwmnïau.</td></tr>
</table>

**Tabl E: CYFARWYDDYD GWEINIDOGION CYMRU MEWN PERTHYNAS Â CHYMDEITHAS GOFRESTREDIG: AILSTRWYTHURO (Paragraff 12 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 4 o Ddeddf 2018)**

| Cynnwys | Terfynau amser |
|---|---|
| **1. Manylion adnabod y landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad.**<br>a. ei enw;<br>b. ei rif cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran tai cymdeithasol;<br>c. ei rif cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol;<br>**2. Mewn perthynas â'r endidau sy'n rhan o'r broses ailstrwythuro ac eithrio'r landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad (gan gynnwys y corff derbyn o ran trosglwyddo ymrwymiadau):**<br>a. eu henwau;<br>b. eu rifau cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran tai cymdeithasol;<br>c. eu rhifau cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau, pan fo'n gymwys;<br>d. eu rhifau cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau pan fo'n gymwys;<br>e. eu rhifau cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, pan fo'n gymwys;<br>**3. Pan fo mwy nag un landlord cymdeithasol cofrestredig yn ymwneud â'r un trafodiad, enw'r sefydliad arweiniol (rhaid iddo fod yn landlord cymdeithasol cofrestredig) ar gyfer ymholiadau;**<br>**4. Y math o newid o dan sylw (h.y. trosi, uno, trosglwyddo ymrwymiadau), gan gynnwys darpariaeth berthnasol Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014;**<br>**5. Enw arfaethedig y corff newydd;**<br>**6. Copi o'r penderfyniad neu benderfyniadau a gymeradwywyd gan y landlord cymdeithasol cofrestredig fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014;**<br>**7. Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r broses ailstrwythuro (h.y. y dyddiad y bwriedir i'r prosesau statudol ddod i rym).**<br>**8. Pan fo'i angen, datganiad am yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y gymdeithas gyda'i thenantiaid[4] cyn cymeradwyo'r penderfyniad y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.** | Rhaid cyflwyno hysbysiad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r landlord cymdeithasol cofrestredig gymeradwyo penderfyniad i drosi neu ailstrwythuro.<br><br>Noder mewn perthynas â phenderfyniadau o dan adrannau 109, 110 neu 112 o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 (sy'n cynnwys 'ail gyfarfod' fel y nodir yn adrannau 111 neu 113), dylid cyfrifo'r terfyn amser o ddyddiad yr ail gyfarfod |

[4] Pan ddaw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym, daw'r tenant yn "ddeiliad-contract".

**Gollyngiad:** Pan fo mwy nag un landlord cymdeithasol cofrestredig yn ymwneud ag un trafodiad (e.e. uno dau landlord cymdeithasol cofrestredig), mae’n ofynnol cyflwyno hysbysiad ynghylch pob un o’r cyrff hynny. Hepgorir y gofyniad i bob landlord cymdeithasol cofrestredig gyflwyno eu hysbysiadau eu hunain, a chaniateir i landlord cymdeithasol cofrestredig arweiniol gyflwyno’r hysbysiad ar ran pob un o’r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac mewn perthynas â phob un o’r landlordiaid hynny.

**Tabl F: CYFARWYDDYD GWEINIDOGION CYMRU MEWN PERTHYNAS Â CHYMDEITHAS GOFRESTREDIG: DIDDYMU (Paragraff 12 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 4 o Ddeddf 2018)**

| **Cynnwys** | **Terfynau amser** |
|---|---|
| **1. Manylion adnabod y landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad.**<br>a. ei enw;<br>b. ei rif cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran tai cymdeithasol;<br>c. ei rif cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol;<br>**2. Copi o'r offeryn diddymu a gymeradwywyd gan y landlord cymdeithasol cofrestredig yn unol ag adran 119(3) o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.** | Rhaid cyflwyno hysbysiad erbyn y diwrnod gwaith nesaf ar ôl y dyddiad y cymeradwyir yr offeryn diddymu yn unol ag adran 119(3) o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014<br><br>Noder pan fo angen cymeradwyo'r penderfyniad i ddiddymu (sef proses sy'n cynnwys 'ail gyfarfod' fel y nodir yn adran 120 o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014) dylid cyfrifo'r terfyn amser o ddyddiad yr ail gyfarfod |

**Tabl G: CYFARWYDDYD GWEINIDOGION CYMRU MEWN PERTHYNAS Â CHYMDEITHASAU COFRESTREDIG: NEWID RHEOLAU (Paragraff 9 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 3 o Ddeddf 2018)**

<table>
<tr><td colspan="2">Mae'n ofynnol cyflwyno hysbysiadau ynghylch pob un o'r canlynol:<br>i. newidiadau i'r rheolau sy'n effeithio ar statws elusennol y gymdeithas gofrestredig;<br>ii. newidiadau i'r erthyglau a allai effeithio ar ddynodiad y cwmni yn gwmni nid-er-elw (yn unol ag adran 2(2) o Ddeddf 1996 - noder y gallai hyn effeithio ar gymhwysedd i gofrestru) ;<br>iii. newidiadau i'r rheolau sy'n peri i'r gymdeithas gofrestredig ddod yn is-gorff i gorff arall, neu newidiadau sy'n peri iddi beidio â bod felly;<br>iv. newidiadau i'r rheolau sy'n galluogi i'r gymdeithas gofrestredig ddod yn is-gorff i gorff arall, neu newidiadau sy'n galluogi iddi beidio â bod felly;<br>v. newidiadau i'r rheolau sy'n newid enw'r gymdeithas gofrestredig;<br>vi. newidiadau i'r rheolau sy'n newid cyfeiriad cofrestredig y gymdeithas gofrestredig.</td></tr>
<tr><td>Cynnwys</td><td>Terfynau amser</td></tr>
<tr><td>1. Manylion adnabod y landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad.<br>a. ei enw;<br>b. ei rif cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran tai cymdeithasol;<br>c. ei rif cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol;<br>2. Nodi pa newid neu newidiadau i'r rheolau y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef neu'n ymwneud â hwy (h.y. o blith y newidiadau hynny a nodir yn i - iv uchod);<br>3. Nodi canlyniad y newid neu newidiadau<br>4. Pan fo'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn dod yn is-gorff i gorff arall o ganlyniad i'r newid, rhaid nodi'r wybodaeth a ganlyn am riant-gorff newydd y landlord cymdeithasol cofrestredig:<br>a. ei enw;<br>b. ei rif cofrestru ar y gofrestr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran tai cymdeithasol;<br>c. ei rif cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau, pan fo'n gymwys;<br>d. ei rif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, pan fo'n gymwys;<br>e. ei rif cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, pan fo'n gymwys;<br>5. Pan newidir enw'r landlord cymdeithasol cofrestredig, yr enw newydd;<br>6. Pan newidir cyfeiriad cofrestredig y landlord cymdeithasol cofrestredig, y cyfeiriad newydd;</td><td>Rhaid cyflwyno'r hysbysiad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r penderfyniad ddod i rym</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **7. Tystiolaeth bod y newidiadau wedi eu cofrestru gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.** | |
| **Gollyngiad:** Nid oes angen cyflwyno hysbysiad ynghylch newid rheolau sy’n cael effeithiau ac eithrio’r effeithiau a restrir yn i - iv uchod | |

**Y GOFYNION AR LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG SY'N ELUSENNAU COFRESTREDIG (wedi eu cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau yn unig)**

**Tabl H: CYFARWYDDYD GWEINIDOGION CYMRU MEWN PERTHYNAS AG ELUSEN: NEWID ERTHYGLAU (paragraff 10 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996.)**

| |
|---|
| **Gollyngiad:** Nid oes angen cyflwyno hysbysiad ynghylch unrhyw newidiadau i erthyglau elusen gofrestredig |

## 5. Gwybodaeth Gyffredinol - hysbysiadau ynghylch newidiadau cyfansoddiadol

5.1 Mae'r Rheoleiddiwr yn disgwyl i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gyfathrebu mewn ffordd gywir ac amserol ynghylch materion sy'n ymwneud â newidiadau cyfansoddiadol. Mae tryloywder ar ran y landlord cymdeithasol cofrestredig yn hanfodol er mwyn sicrhau rheoleiddio ar y cyd. Gall methiant ar ran landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i fodloni'r disgwyliadau rheoleiddio yn y maes hwn gael effaith andwyol ar y Dyfarniad Rheoleiddio cyhoeddedig. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau, cyngor a gofynion rheoleiddio manylach yn ogystal â'r Cyfarwyddyd hwn.

5.1 Pan fo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cynllunio prosesau sylweddol i ailstrwythuro'r busnes, neu brosesau tebyg, mae'n bwysig bod y Rheoleiddiwr yn cael gwybod am hynny. Gall prosesau ailstrwythuro adlewyrchu newid sylweddol o ran strategaeth landlord cymdeithasol cofrestredig neu beri risgiau sy'n bwysig i'r Rheoleiddiwr o ran pennu'r dull gweithredu rheoleiddio o ran landlord cymdeithasol cofrestredig a'r dyfarniadau rheoleiddio cyhoeddedig. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys unrhyw gynlluniau i greu is-gorff, ymrwymo i gyd-fenter gyda sefydliad arall, neu i greu unrhyw fath o gyfrwng at ddibenion arbennig. Er nad yw'r rhain wedi eu cwmpasu gan y cyfarwyddyd hwn ynghylch hysbysiadau, mae'n ofynnol hysbysu'r Rheoleiddiwr am unrhyw gynlluniau o'r fath fel rhan o'r trefniadau rheoleiddio ar y cyd arferol.

5.2 Gan hynny mae'r Rheoleiddiwr yn disgwyl i landlord cymdeithasol cofrestredig roi gwybod iddo pan fydd yn **cynllunio** proses ailstrwythuro. Fel gofyniad safonol, dylai'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig roi gwybod i'r Rheoleiddiwr pan fydd y cynlluniau yn weddol ddatblygedig (er enghraifft pan gaiff penawdau'r telerau neu bethau tebyg eu llunio) ond, fel rhan o'r trefniadau rheoleiddio ar y cyd, bydd y Rheoleiddiwr yn disgwyl cael gwybod am gynigion sylweddol ar gam cynharach, a rhaid rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr am y canlynol:

a) Unrhyw fath o broses ailstrwythuro corfforaethol, gan gynnwys
- trosglwyddo ymrwymiadau neu uno
- trosi cwmni yn gymdeithas gofrestredig, ac i'r gwrthwyneb
- sefydlu Sefydliad Corfforedig Elusennol i drosglwyddo'r gweithgarwch elusennol cyfredol iddo
- uno drwy drosglwyddo busnes
- creu neu ddiddymu is-gwmni, gan gynnwys cyfrwng at ddibenion arbennig
- dod yn gorff elusennol neu drosi'n gorff elusennol
- dod yn is-gorff, neu beidio â bod yn is-gorff

b) Un neu ragor o drefniadau cwmni neu brosesau atgyfansoddi o'r fath a nodir ym mharagraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996
c) Diddymu cymdeithas gofrestredig yn unol â pharagraff 12 o Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996
d) Ymrwymo i gyd-fenter gyda landlord cymdeithasol cofrestredig arall neu gyda chorff arall nad yw'n landlord cymdeithasol cofrestredig

e) unrhyw newid sylweddol arall i'r busnes, gan gynnwys unrhyw gynlluniau i beidio â gweithredu.

5.3 Wrth gynllunio newidiadau megis y rheini a ddisgrifir ym mharagraff 3.3, rhaid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru am:

a) Y math o broses ailstrwythuro, trefniant, proses atgyfansoddi neu ddiddymu y maent yn cynllunio neu'n bwriadu bwrw ymlaen â hi;
b) Diben y broses ailstrwythuro, sefydlu is-gorff, cyfrwng at ddibenion arbennig neu gyd-fenter;
c) Y terfynau amser arfaethedig; a
d) Manylion adnabod unrhyw gyrff eraill sy'n ymwneud â'r broses.

5.4 Nid oes unrhyw fformat rhagnodedig ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth hon. Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gysylltu â'u Rheolwr Rheoleiddio yn ogystal ag anfon neges e-bost i housingregulation@gov.wales

5.5 Ar gam cynnar mewn trafodiad arfaethedig sy'n cynnwys mwy nag un landlord cymdeithasol cofrestredig (e.e. proses uno), mae'r Rheoleiddiwr yn disgwyl i bob un o'r cyrff ddarparu gwybodaeth yn y ffordd a ddisgrifir uchod. Mae'r disgwyliad hwn yn wahanol i'r broses hysbysu statudol lle caniateir nodi landlord cymdeithasol cofrestredig arweiniol i gyflwyno gwybodaeth ar ran yr holl bartïon sy'n ymwneud â'r broses.

5.6 Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried unrhyw wybodaeth a geir, a gallant ymgysylltu ymhellach â landlord cymdeithasol cofrestredig yn dibynnu ar lefel y risg, y cymhlethdod neu'r ansicrwydd sy'n deillio o'r newid arfaethedig. Caiff hyn ei asesu fesul achos unigol, a bydd yn dibynnu ar amryw o ffactorau, gan gynnwys cymesuredd a'r dull gweithredu rheoleiddio ar sail risg.

**Atodiad 1**

**Rhestr Termau**

| | |
|---|---|
| Deddf 1996 | Deddf Tai 1996. |
| Deddf 2018 | Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018 |
| Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | Corff yng Nghymru sydd wedi ei gofrestru gyda Gweinidogion Cymru o dan Ran 1 o Ddeddf 1996. |
| Y Rheoleiddiwr | Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu swyddogaethau o dan adran 75 o Ddeddf Cymdeithasau Tai 1985 a Deddf 1996. |
| Tai Cymdeithasol | At ddibenion y Cyfarwyddyd hwn, tai cymdeithasol yw darparu tai ar gyfraddau fforddiadwy i'r rheini na ellir diwallu eu hanghenion gan y farchnad dai fasnachol. Gall tai cymdeithasol gael eu darparu gan yr awdurdod lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig neu sefydliadau ni-er-elw eraill, yn ogystal â thrwy gynlluniau megis darparu tai fforddiadwy fel rhan o ddatblygiadau tai newydd. Mae annedd tai cymdeithasol yn cynnwys unrhyw ddefnydd o dai cymdeithasol neu unrhyw fath o dai cymdeithasol; tai, fflatiau i'w rhentu, cyd-berchnogaeth, tai â chymorth, llety dros dro neu anghenion cyffredinol. |

**Atodiad 3 - Y Ffurflenni Hysbysu**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y ffurflen hysbysu am ailstrwythuro, newidiadau i reolau neu i erthyglau

## Cynnwys


Ynglŷn â’r ffurflen hon ........ 26

Rhan 1: Datganiad a chydsyniad ........ 27

Rhan 2: Gwybodaeth gyffredinol: i'w chwblhau gan bawb ........ 28

Rhan 3: Y gofynion o ran gwybodaeth fesul y math o newid ........ 29

- Adran A: Ailstrwythuro drwy drosi ........ 29
- Adran B: Newid neu newidiadau i erthyglau neu i reolau ........ 30
- Adran C: Uno ........ 32
- Adran D: Trosglwyddo ymrwymiadau ........ 33

## Ynglŷn â’r ffurflen hon

1. Mae’r ffurflen hon i’w defnyddio gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru i gyflwyno i Weinidogion Cymru yr wybodaeth sy’n ofynnol i fodloni y ‘Cyfarwyddyd i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy’n ailstrwythuro, gan gynnwys newid strwythur y grŵp, neu ddiwygio’r dogfennau llywodraethu’.

2. Pan fo proses ailstrwythuro yn cynnwys mwy nag un landlord cymdeithasol cofrestredig (e.e. uno dau landlord cymdeithasol cofrestredig), caiff landlord cymdeithasol cofrestredig arweiniol gyflwyno un ffurflen sy’n cynnwys yr holl wybodaeth a’r holl ddogfennau perthnasol ar ran yr holl gyrff sy’n rhan o’r broses, ar yr amod bod awdurdodiad priodol ar waith i ganiatáu i’r landlord cymdeithasol cofrestredig arweiniol wneud hynny. Caiff ymholiadau sy’n ymwneud â’r hysbysiad hwnnw eu cyfeirio at y landlord cymdeithasol cofrestredig arweiniol, ond gellir cysylltu â’r landlord neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig arall neu eraill hefyd os yw’r Rheoleiddiwr yn teimlo bod angen gwneud hynny.

3. Dylid cwblhau pob adran sy’n gymwys. Pan fo nifer o newidiadau yn digwydd ar yr un pryd fel rhan o un newid cyffredinol mwy o faint (e.e. trosi cwmni yn gymdeithas gofrestredig a dod yn is-gorff i gorff arall; neu drosi cwmni yn gymdeithas gofrestredig ac yna trosglwyddo’r ymrwymiadau), dylid cwblhau pob adran angenrheidiol.

4. Yn ogystal, mae’n ofynnol hysbysu’r Rheoleiddiwr am unrhyw gynlluniau i greu is-gorff, cyfrwng at ddibenion arbennig, neu i ymrwymo i gyd-fenter gyda sefydliad arall. Er nad ydynt wedi eu cwmpasu gan y ffurflen hysbysu hon, rhaid hysbysu’r Rheoleiddwyr am unrhyw gynlluniau o’r fath fel rhan o’r trefniadau rheoleiddio ar y cyd arferol.

5. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at eich Rheolwr Rheoleiddio yn Llywodraeth Cymru neu drwy e-bost i housingregulation@gov.wales.

6. Dylid cyflwyno ffurflenni ac ymholiadau ar ffurf electronig. Dylid sganio’r ffurflen wedi ei chwblhau a’i llofnodi fel ffeil PDF a’i chyflwyno drwy e-bost i housingregulation@gov.wales

   Os nad yw hyn yn bosibl, cysylltwch â’ch Rheolwr Rheoleiddio i wneud trefniadau eraill.

## Rhan 1: Datganiad a chydsyniad

**Enw'r landlord neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad**

……………………………………………………………………………………………………

Ar ran y landlord cymdeithasol cofrestredig neu'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a enwir uchod, rwyf yn cyflwyno'r wybodaeth hysbysu atodedig yn unol â'r gofynion a bennwyd gan Weinidogion Cymru o dan Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol (Cymru) 2018.

i) Ardystiaf hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred fod yr wybodaeth a gyflwynir ar y ffurflen hon yn gywir, a bod yr wybodaeth honno wedi ei gweld a'i chymeradwyo gan gorff neu gyrff llywodraethu'r landlord neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad

ii) Rwyf yn cadarnhau fy mod yn deall y gallai unrhyw wybodaeth ynghylch yr hysbysiad hwn a gedwir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys unrhyw wybodaeth a gyflwynir ar y ffurflen gais hon ac yn y dogfennau ategol, neu unrhyw wybodaeth a gyflwynir i Weinidogion Cymru ynghylch y mater hwn, gael ei datgelu gan Weinidogion Cymru pan fo hynny yn unol â'u rhwymedigaethau fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a/neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

iii) Rwyf yn cadarnhau bod y landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad yn cytuno i dderbyn cyfathrebiadau electronig oddi wrth Weinidogion Cymru ar ran y landlord neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a enwir uchod.

Llofnod ……………………………………………………………………………………

Dyddiad……………………………………………………………………………………

Enw ……………………………………………………………………………………

Swydd……………………………………………………………………………………

**Dylai'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan rywun sydd wedi ei awdurdodi, yn unol â chyfansoddiad y landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad, i'w llofnodi ar ran y landlord cymdeithasol cofrestredig hwnnw.**

**Pan wneir hynny ar ran nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, rhaid i'r llofnodwr fod wedi ei awdurdodi yn briodol gan unrhyw landlord neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig y cyflwynir yr wybodaeth ar ei ran neu ar eu rhan.**

**Rhan 2: Gwybodaeth gyffredinol: i'w chwblhau gan bawb**

| **Manylion y landlord cymdeithasol cofrestredig** | |
|---|---|
| Enw'r landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyflwyno'r hysbysiad (a'r landlord cymdeithasol cofrestredig arweiniol ar gyfer ymholiadau pan fo mwy nag un landlord cymdeithasol cofrestredig yn ymwneud â'r hysbysiad) | |
| Y rhif cofrestru gyda Llywodraeth Cymru | |
| Y rhif cofrestru gyda Thŷ Cwmnïau (pan fo'n gymwys) | |
| Y rhif cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (pan fo'n gymwys) | |
| Y rhif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau (pan fo'n gymwys) | |
| Enw cyswllt | |
| Swydd neu rôl y person cyswllt | |
| Rhif ffôn y person cyswllt | |
| Cyfeiriad e-bost y person cyswllt | |

| **Y darparwr arall neu'r darparwyr eraill y cyflwynir yr hysbysiad hwn ar ei ran neu ar eu rhan:**<br>**I'w chwblhau pan fo'n gymwys. Gallwch ychwanegu rhagor o resi os oes angen** | |
|---|---|
| Enw'r landlord cymdeithasol cofrestredig | |
| Y rhif cofrestru gyda Llywodraeth Cymru | |

| | |
|---|---|
| Y rhif cofrestru gyda Thŷ Cwmnïau (pan fo'n gymwys) | |
| Y rhif cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (pan fo'n gymwys) | |
| Y rhif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau (pan fo'n gymwys) | |

**Rhan 3: Y gofynion o ran gwybodaeth fesul y math o newid**
Cwblhewch pob adran isod sy'n gymwys.

**Adran A: Ailstrwythuro drwy drosi**
Sicrhewch fod yr holl flychau perthnasol isod wedi eu llenwi a/neu wedi eu ticio.

| | | |
|---|---|---|
| A1 | Trosi cwmni yn gymdeithas gofrestredig (yn unol ag adran 115 o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014)<br><br>Ticiwch y blwch os yw hyn yn gymwys | ☐ |
| A2 | Trosi cymdeithas gofrestredig yn gwmni (adran 112 o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014)<br><br>Ticiwch y blwch os yw hyn yn gymwys | ☐ |
| A3 | Atodir copi o'r penderfyniad sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 fel y'i pasiwyd gan y landlord cymdeithasol cofrestredig<br><br>Ticiwch y blwch i gadarnhau hyn | ☐ |
| A4 | Cadarnhad nad yw'r penderfyniad hwn wedi ei gofrestru hyd yma gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu Dŷ'r Cwmnïau (fel y bo'n gymwys)<br><br>Ticiwch y blwch i gadarnhau hyn | ☐ |
| A5 | Enw arfaethedig y corff newydd | |
| A6 | Yr amserlen ar gyfer cwblhau (h.y. y dyddiad y bwriedir i'r prosesau statudol ddod i rym) | |

<u>Y terfyn amser ar gyfer yr hysbysiad hwn</u>: o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cymeradwyo penderfyniad i drosi. Diwrnod 1 yw'r diwrnod gwaith nesaf ar ôl i'r penderfyniad gael ei gymeradwyo. Rhaid hysbysu'r Rheoleiddiwr am hyn <u>cyn</u> hysbysu'r cofrestrydd arall (h.y. gall y penderfyniad gael ei gofrestru gan Dŷ'r Cwmnïau neu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.) Ni chaiff y cofrestrydd arall gofrestru'r penderfyniad ond pan fo'r darparwr wedi cadarnhau bod y Rheoleiddiwr wedi ei hysbysu.

### Adran B: Newid neu newidiadau i erthyglau neu i reolau

Sicrhewch fod yr holl flychau perthnasol isod wedi eu llenwi a/neu wedi eu ticio.

| | | |
|---|---|---|
| B1 | Tystiolaeth bod y newidiadau wedi eu cofrestru gan Dŷ'r Cwmnïau neu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (fel y bo'n briodol)<br><br>Ticiwch y blwch i gadarnhau hyn | ☐ |
| B2 | Newid neu newidiadau i erthyglau neu i reolau sy'n peri i'r landlord cymdeithasol cofrestredig ddod yn is-gorff i gorff arall.<br><br>Ticiwch y blwch os yw hyn yn gymwys<br><br>Nodwch fanylion y rhiant-sefydliad newydd isod: | ☐ |
| | a) Enw'r rhiant-sefydliad | |
| | b) rhif cofrestru'r rhiant-sefydliad ar y gofrestr tai cymdeithasol pan fo'n gymwys | |
| | c) rhif cofrestru'r rhiant-sefydliad gyda Thŷ'r Cwmnïau pan fo'n gymwys | |
| | d) rhif cofrestru'r rhiant-sefydliad gyda'r Comisiwn Elusennau pan fo'n gymwys | |
| | e) rhif cofrestru'r rhiant-sefydliad gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol pan fo'n gymwys | |
| B3 | Newid neu newidiadau i erthyglau neu i reolau sy'n peri i'r landlord cymdeithasol cofrestredig beidio â bod yn is-gorff i gorff arall<br><br>Ticiwch y blwch os yw hyn yn gymwys | ☐ |
| B4 | Newid neu newidiadau i erthyglau neu i reolau sy'n galluogi i'r landlord cymdeithasol cofrestredig ddod yn is-gorff i gorff arall, neu i beidio â bod yn is-gorff i gorff arall, gan gynnwys rywbryd yn y dyfodol<br><br>Ticiwch y blwch os yw hyn yn gymwys<br><br>Nodwch ragor o fanylion isod ac esboniwch y newidiadau, e.e. nodwch sut y bydd y newidiadau yn galluogi i'r landlord cymdeithasol cofrestredig ddod yn is-gorff i gorff arall, neu i beidio â bod yn is-gorff i gorff arall, ac o dan ba amgylchiadau y gwneir hynny; | ☐ |
| | Ateb: | |
| B5 | Newid neu newidiadau i erthyglau neu i reolau sy'n effeithio ar statws elusennol, h.y. sy'n gwneud y corff yn elusen<br><br>Ticiwch y blwch os yw hyn yn gymwys | ☐ |
| B6 | Dylai cwmnïau sydd wedi nodi tic ym mlwch B5 ddarparu tystiolaeth bod yr erthyglau wedi eu cofrestru gan y Comisiwn Elusennau<br><br>Ticiwch y blwch i gadarnhau hyn | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| B7 | Newid neu newidiadau i erthyglau neu i reolau sy'n bwriadu newid y dynodiad ar y gofrestr:<br><br>Nodwch fanylion y newidiadau isod a nodwch pam rydych o'r farn eu bod yn effeithio ar y dynodiad ar y gofrestr (cewch atodi'r cymalau perthnasol neu eich dogfen lywodraethu gyfan er hwylustod)<br><br>Ticiwch y blwch os yw hyn yn gymwys | ☐ |
| | Ateb: | |

Y terfyn amser ar gyfer yr hysbysiad hwn: o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r penderfyniad ddod i rym. Diwrnod 1 yw'r diwrnod gwaith nesaf ar ôl i'r penderfyniad ddod i rym.

**Adran C: Uno**

**Sicrhewch fod yr holl flychau perthnasol isod wedi eu llenwi a/neu wedi eu ticio.**

<table>
<tr><td>C1</td><td colspan="5">Uno cymdeithasau cofrestredig (adran 109 o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014)<br><br>Ticiwch y blwch os yw hyn yn gymwys</td><td>☐</td></tr>
<tr><td>C2</td><td colspan="5">Uno cymdeithasau i ffurfio cwmni (adran 112 o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014)<br><br>Ticiwch y blwch os yw hyn yn gymwys</td><td>☐</td></tr>
<tr><td>C3</td><td colspan="5">Atodir copi o’r penderfyniad sy’n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 fel y’i pasiwyd gan y landlord cymdeithasol cofrestredig<br><br>Ticiwch y blwch i gadarnhau hyn</td><td>☐</td></tr>
<tr><td>C4</td><td colspan="5">Cadarnhad bod y penderfyniad neu benderfyniadau wedi ei gofrestru neu eu cofrestru/heb ei gofrestru neu eu cofrestru hyd yma gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol<br><br>Ticiwch y blwch i gadarnhau hyn</td><td>☐</td></tr>
<tr><td>C5</td><td colspan="2">Enw arfaethedig y corff newydd</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td>C6</td><td colspan="2">Y terfyn amser ar gyfer cwblhau (h.y. y dyddiad y bwriedir i’r prosesau statudol ddod i rym)</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td>C7</td><td colspan="2">Manylion yr endidau eraill sy’n rhan o'r broses uno<br><br>Gallwch ychwanegu rhagor o resi os oes angen</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td></td><td></td><td colspan="5">Y rhifau cofrestru (pan fo’n gymwys)</td></tr>
<tr><td></td><td>Enw</td><td>Y rhif cofrestru ar y gofrestr tai cymdeithasol</td><td>Y rhif cofrestru gyda Thŷ’r Cwmnïau</td><td>Y rhif cofrestru gyda’r Comisiwn Elusennau</td><td colspan="2">Y rhif cofrestru gyda’r Awdurdod Ymddygiad Ariannol</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
</table>

<u>Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno’r wybodaeth hon</u>: o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cymeradwyo penderfyniad gan y corff llywodraethu i ailstrwythuro. Diwrnod 1 yw’r diwrnod gwaith nesaf ar ôl i’r penderfyniad gael ei gymeradwyo. Rhaid hysbysu’r Rheoleiddiwr am hyn <u>cyn</u> y caniateir i’r Awdurdod Ymddygiad Ariannol gofrestru’r penderfyniad. Ni chaiff yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol gofrestru’r penderfyniad ond pan fo’r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi cadarnhau bod y Rheoleiddiwr wedi ei hysbysu.

**Adran D: Trosglwyddo ymrwymiadau**

Sicrhewch fod yr holl flychau perthnasol isod wedi eu llenwi a/neu wedi eu ticio.

| | | |
|---|---|---|
| D1 | Trosglwyddo ymrwymiadau rhwng cymdeithasau cofrestredig (adran 110 o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014)<br><br>Ticiwch y blwch os yw hyn yn gymwys | ☐ |
| D2 | Trosglwyddo ymrwymiadau cymdeithas i gwmni (adran 112 o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014)<br><br>Ticiwch y blwch os yw hyn yn gymwys | ☐ |
| D3 | Atodir copi o'r penderfyniad sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 fel y'i pasiwyd gan y landlord cymdeithasol cofrestredig<br><br>Ticiwch y blwch i gadarnhau hyn | ☐ |
| D4 | Cadarnhad bod y penderfyniad neu benderfyniadau wedi ei gofrestru neu eu cofrestru/heb ei gofrestru neu eu cofrestru hyd yma gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol<br><br>Ticiwch y blwch i gadarnhau hyn | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| D5 | Enw'r corff derbyn | |
| D6 | Y terfyn amser ar gyfer cwblhau (h.y. y dyddiad y bwriedir i'r prosesau statudol ddod i rym) | |
| D7 | Manylion yr endidau eraill sy'n ymwneud â throsglwyddo'r ymrwymiadau (gan gynnwys y corff derbyn a nodir uchod)<br><br>Gallwch ychwanegu rhagor o resi os oes angen | |

| | | Y rhifau cofrestru (pan fo'n gymwys) | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Enw | Y rhif cofrestru ar y gofrestr tai cymdeithasol | Y rhif cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau | Y rhif cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau | Y rhif cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

<u>Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth hon</u>: o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cymeradwyo penderfyniad gan y corff llywodraethu i ailstrwythuro.

Diwrnod 1 yw'r diwrnod gwaith nesaf ar ôl i'r penderfyniad gael ei gymeradwyo. Rhaid hysbysu'r Rheoleiddiwr am hyn cyn y caniateir i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol gofrestru'r penderfyniad. Ni chaiff yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol gofrestru'r penderfyniad ond pan fo'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi cadarnhau bod y Rheoleiddiwr wedi ei hysbysu.

**Dylid cyflwyno'r adrannau o'r ffurflen hon a gwblhawyd i'r tîm rheoleiddio drwy e-bost at Weinidogion Cymru yn housingregulation@gov.wales**

**Cysylltwch â'ch Rheolwr Rheoleiddio os nad yw hyn yn bosibl.**